SFLSCM132

Monitro cludo cyflenwadau

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â monitro cludo cyflenwadau. Mae'n cynnwys cydgrynhoi a dadansoddi gwybodaeth yn ymwneud â chludo cyflenwadau. Mae hefyd yn cynnwys nodi problemau, rhoi canlyniadau dadansoddiadau, a gwneud argymhellion yn ymwneud â chludo cyflenwadau.

Mae'r safon hon ar gyfer ymarferwyr cadwyn gyflenwi. Gallai hyn fod, er enghraifft, mewn rolau prynu, gweithrediadau logisteg llwythi neu reoli trafnidiaeth.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. monitro **cludo cyflenwadau** gan ddefnyddio systemau neu ddyfeisiadau olrhain perthnasol
2. cydgrynhoi a pharatoi gwybodaeth am **gludo cyflenwadau** ar gyfer eu dadansoddi
3. dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth am **gludo cyflenwadau**
4. nodi ac ymdrin â phroblemau yn **cludo cyflenwadau**
5. rhoi canfyddiadau eich monitro i **gydweithwyr** a gwneud argymhellion
6. cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadol a sefydliadol perthnasol ar gyfer **cludo cyflenwadau**
7. cyfathrebu gyda chydweithwyr yn y **gadwyn gyflenwi** trwy gydol y broses fonitro

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y mathau o **drafnidiaeth** a gweithdrefnau a ddefnyddir gan eich sefydliad
2. ffynonellau gwybodaeth eich sefydliad sy'n berthnasol i'r **cyflenwadau** sy'n cael eu cludo a phrosesau **cadwyn gyflenwi**
3. sut i fonitro **cludo cyflenwadau** gan ddefnyddio systemau olrhain a mynd ar drywydd
4. sut i gydgrynhoi a pharatoi data ar fonitro'r **cyflenwadau** sy'n cael eu cludo
5. sut i ddadansoddi gwybodaeth am **gludo cyflenwadau**
6. dulliau a gweithdrefnau perthnasol ar gyfer gwerthuso gwybodaeth am **gludo cyflenwadau**
7. y mathau o broblemau a allai ddigwydd wrth **gludo cyflenwadau** a sut i ymdrin â nhw
8. y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir gan eich sefydliad
9. sut i gyflwyno canlyniadau monitro i **gydweithwyr**
10. y gofynion cyfreithiol, rheoliadol a sefydliadol perthnasol ar gyfer **cludo cyflenwadau**

Geirfa

Cadwyn gyflenwi: caffaeliad, prynu a chyflenwi, logisteg, trafnidiaeth, a rheoli gweithrediadau, o fewn a rhwng ffiniau rhyngwladol

Cydweithwyr: parhaol, dros dro, staff asiantaeth, allanol

Cyflenwadau: unrhyw gyfuniad o nwyddau neu wasanaethau sy'n cael eu caffael, eu dosbarthu neu eu storio yn y gadwyn gyflenwi

Trafnidiaeth: symud cyflenwadau neu adnoddau yn fewnol neu'n allanol yn eich sefydliad eich hun, yn genedlaethol neu rhwng ffiniau rhyngwladol

Monitro cludo cyflenwadau

Datblygwyd gan	Skills for Logistics
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Ionawr 2018
Indicative Review Date	Ionawr 2023
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Logistics
RCU gwreiddiol	SFLSCM132
Galwedigaethau perthnasol	Manwerthu a chyfanwerthu ; Warws a Dosbarthu; Rheolwyr Dosbarthu, Storio a Manwerthu; Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Trafnidiaeth
Cyfres/Set	Gweithrediadau Logisteg; Gweithrediadau Masnach a Logisteg Rhyngwladol; Rheoli Cadwyn Gyflenwi
Geiriau Allweddol	monitro; trafnidiaeth; cyflenwadau; cadwyn gyflenwi